


ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG – Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

[Cymraeg 2050](#) yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llawn i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen, a Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol.

Mae tair thema i strategaeth Cymraeg 2050:



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Cefndir y Bil

Cyhoeddwyd y Rhaglen Lywodraethu ar 17 Mehefin 2021 gan nodi'r ymrwymïadau uchelgeisiol i'w cyflawni rhwng 2021 a 2026 i wella bywydau pobl ledled Cymru. Mae'n bwysig bod y Senedd a Llywodraeth leol yn cynrychioli'n agos y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu, ac mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymïad i ddiwygio etholiadau llywodraeth leol er mwyn lleihau'r diffyg democrataidd. Ein gweledigaeth yw bod Cymru yn wlad lle y mae'n hawdd i bob dinesydd gymryd rhan yn ein democratiaeth, i gael llais mewn etholiadau ac i bleidleisio.

Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen uchelgeisiol ar gyfer diwygio etholiadol er mwyn datblygu'r gwaith a gyflawnwyd yn y bumed Senedd gan gynnwys estyn yr hawl i bleidleisio i bobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Ar 29 Gorffennaf 2021, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ddatganiad ysgrifenedig a oedd yn nodi fframwaith ar gyfer diwygio etholiadol a'r blaenoriaethau i alluogi mwy o bleidleiswyr a oedd newydd gael yr hawl i bleidleisio a phleidleiswyr presennol i gofrestru a phleidleisio yn yr etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd yn 2022.

Ym mis Hydref 2022, gwnaethom ymgynghori ar gyfres eang o gynigion i ddiwygio etholiadau Cymreig. Ochr yn ochr â'r brif ddogfen, cyhoeddwyd fersiwn Pobl Ifanc, fersiwn Hawdd ei Deall a fersiwn Iaith Arwyddion Prydain o'r ymgynghoriad.

Bydd y Bil yn sicrhau pecyn sylweddol o ddiwygiadau fel yr amlinellir yn y Papur Gwyn, gan gynnwys:

- peilota cofrestru etholwyr heb geisiadau ar gyfer etholiadau Cymreig cyn rhoi hynny ar waith yn llawn,
- sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol i wella gweinyddu etholiadol,
- diwygio'r prosesau ar gyfer cynnal adolygiadau cymunedau ac adolygiadau etholiadol,
- diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol a throsglwyddo ei swyddogaethau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru,
- gwella hygyrchedd etholiadau Cymreig ar gyfer pobl anabl, a
- gwella diogelwch ymgeiswyr drwy ddeddfu i estyn cwmpas trosedd dylanwad gormodol.

A yw'r Bil yn dangos cyswllt clir gyda strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg (Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr)?

O ran y cynigion polisi, ni wnaeth ymatebwyr i'r Papur Gwyn nodi unrhyw effaith sylweddol ar y Gymraeg. Mae canllawiau presennol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ogystal, mae'r defnydd

ymarferol o seilwaith a staff awdurdodau lleol wrth gynnal etholiadau yn integreiddio'r defnydd o'r Gymraeg i'r prosesau hynny.

Mae gwasanaethau etholiadol felly'n cael eu cynnal yn Gymraeg, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn gymesur, er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn gysylltiedig ag un o amcanion strategol Cymraeg 2050, Gwasanaethau (o dan thema 2), sy'n ceisio cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg yn ogystal â chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr i gwestiwn penodol yn y Papur Gwyn yn cefnogi cyflwyno gofynion newydd o ran y Gymraeg ar Swyddogion Canlyniadau. Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg a rhai ymatebwyr i'r Papur Gwyn enghreifftiau o feysydd y gellid eu gwella gan gyfeirio at wasanaethau y gellid eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg pan fo etholiadau yn cael eu cynnal. Roedd awgrymiadau yn cynnwys y dylai templedi etholiadol, cyfathrebiadau ysgrifenedig a llafar yn ogystal â'r datganiad o ganlyniadau fod yn ddwyieithog. Awgrymwyd y dylid darparu adnoddau cyfieithu/cyfieithu ar y pryd pan fo angen ac y dylai hyfforddiant proffesiynol dwyieithog fod ar gael i staff, ymgeiswyr ac aelodau etholedig. Byddwn yn ystyried y pwyntiau hyn wrth inni weithio gyda rhanddeiliaid etholiadol i gynllunio gwasanaethau.

Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynigion ar y Gymraeg ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai darparu mwy o wasanaethau etholiadol Cymraeg yn effeithio'n gadarnhaol ar y Gymraeg. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg, y Comisiwn Etholiadol a Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er mai dim ond un ddarpariaeth sydd yn y Bil a fydd yn hybu'r Gymraeg yn benodol, fel y nodir isod, mae'r enghreifftiau a ganlyn yn dangos sut y byddwn yn ystyried y Gymraeg wrth weithredu darpariaethau ehangach y Bil:

Newidiadau i adolygiadau etholiadol ac adolygiadau cymunedau a gynhelir gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol ledled Cymru.

Mae'r Bil yn cynnwys nifer o newidiadau i drefniadau'r adolygiadau hyn, gan gynnwys ychwanegu Comisiynydd y Gymraeg at y rhestr o ymgynghoreion gorfodol wrth ddatblygu ei ddatganiad polisi ac ymarfer a'r adolygiadau etholiadol unigol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnwys enwau Cymraeg a Saesneg wardiau etholiadol yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ei adroddiadau. Mae hyn yn newid yr arfer presennol lle y mae enwau Saesneg wardiau yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau Saesneg ac enwau Cymraeg wardiau yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau Cymraeg. Nod hyn yw cefnogi'r Gymraeg drwy gynyddu tryloywder y broses ar gyfer penderfynu ar enwau Cymraeg a Saesneg wardiau a sicrhau mwy o ymwneud â phleidleiswyr.

Gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer Swyddogion Canlyniadau

Ceisiodd y Papur Gwyn farn ymatebwyr ynghylch a ddylai gofynion penodol o ran y Gymraeg fod yn berthnasol i Swyddogion Canlyniadau ac ynghylch y mathau o wasanaethau y byddai pobl yn dymuno i Swyddogion Canlyniadau eu darparu yn Gymraeg. Er nad oedd y mwyafrif o blaid cyflwyno gofynion newydd, roedd barn gymysg ynglŷn â'r pwynt hwn. Roedd rhai yn teimlo bod rhannu gwybodaeth ac arferion gorau rhwng awdurdodau lleol a Swyddogion Canlyniadau yn fwy pwysig na gosod gofynion newydd mewn deddfwriaeth. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu polisi yn y maes hwn, drwy bwerau is-ddeddfwriaeth pan fo hynny'n briodol.

Bwrdd Rheoli Etholiadol

Mae cydlynu gweinyddu etholiadol yng Nghymru yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru. Grŵp gwirfoddol yw'r Bwrdd heb unrhyw bwerau statudol. Un o amcanion allweddol y Bwrdd yw sicrhau bod gwasanaethau etholiadol yng Nghymru yn cael eu darparu yn ddwyieithog. Er mwyn hwyluso hyn, mae'r Bwrdd wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar y Gymraeg. Mae'r Grŵp yn cael ei gadeirio gan aelod o'r Bwrdd ac mae'n helpu i gydlynu a chynorthwyo timau etholiadau i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg - er enghraifft, cytuno ar eirfa gyffredin o ymadroddion Cymraeg. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r grŵp hwn yn ystod y cyfnod cyn bod Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cael ei sefydlu.

Mae'r Bil yn sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol yn fwrdd statudol o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") gyda swyddogaethau statudol i barhau â'r gwaith gwirfoddol a gynhelir ar hyn o bryd gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru, ac adeiladu arno. Bydd y Comisiwn, a fydd yn gweithredu drwy'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, yn gyfrifol am y gwaith cydlynu rhwng Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a phersonau eraill sy'n gyfrifol am weinyddu etholiadau Cymreig. Bydd gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol y pŵer i ddyroddi cyfarwyddydau a chynghor i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Y nod yw y bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn datblygu rôl Grŵp Cynghori ar y Gymraeg yn rhan o'i waith er mwyn cefnogi cynnal etholiadau yn ddwyieithog yng Nghymru.

Platfform gwybodaeth hygyrch i bleidleiswyr

Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu a gweithredu platfform gwybodaeth ar gyfer etholiadau Cymreig gan ddarparu gwybodaeth ynglŷn ag etholiadau Cymreig i etholwyr. Bydd y platfform gwybodaeth ar gyfer etholiadau Cymreig yn darparu gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Arolygon Ymgeiswyr Llywodraeth Leol

Bydd y Bil yn galluogi awdurdodau lleol i gynnwys cwestiynau i fesur cynnydd mewn perthynas â mentrau lleol sy'n ymwneud ag unigolion sy'n sefyll ar gyfer swyddi etholedig o fewn llywodraeth leol. Byddai'r dull hwn yn cefnogi mentrau a gynhelir yn lleol i annog mwy o siaradwyr Cymraeg i sefyll i gael eu hethol.